# 4.0 Gwirfoddolwyr

## Croesawu Gwirfoddolwyr sy'n Geiswyr Lloches

## Trosolwg


1. Cyflwyniad
2. Diffiniadau
3. Cyfarwyddyd y swyddfa gartef
4. Yn gysylltiedig â’r cyfarwyddyd
5. Gwybodaeth bellach
6. Atodiad un
7. Atodiad dau


## Cyflwyniad

Gall unigolion sy’n geiswyr lloches neu’n ffoaduriaid fod yn wirfoddolwyr rhagorol.

Gallant fod yn llawn cymhelliant i ddysgu sgiliau newydd, neu ddatblygu sgiliau sydd ganddyn nhw’n barod i’w cynorthwyo i ddod o hyd i waith yn y dyfodol.

Nid yn unig mae gwirfoddoli yn fuddiol i’r unigolyn, ond gall cynnwys gwirfoddolwyr sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid fod yn hynod gadarnhaol i'ch mudiad.



Llun: Gwirfoddolwyr yn cyfarch aelod newydd

# Diffiniadau

## Ceisiwr lloches (rhywun sy’n ceisio lloches)

Unigolyn sydd wedi gadael ei wlad enedigol ac wedi gwneud cais ffurfiol am loches mewn gwlad arall ond nad yw ei gais wedi’i gwblhau eto. Lle bynnag y bo modd, mae'n well gennym ni ddisgrifio rhywun fel unigolyn sy'n ceisio lloches gan fod y term ceisiwr lloches yn dad-ddyneiddio pobl yn ein barn ni.

Mae mwyafrif llethol o’r ceiswyr lloches yn y Deyrnas Unedig wedi'u gwahardd rhag cael gwaith, ond mae ganddyn nhw hawl gyfreithiol i wirfoddoli. Mae dewis amgen o fudd-daliadau ar gael i geiswyr lloches, sef Cymorth Lloches.

## Ffoadur

Yn ôl Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Statws Ffoaduriaid ym 1951, y diffiniad o ffoadur yw:

> “Unigolyn sydd, oherwydd ofn sefydledig o gael ei erlid am resymau ar sail hil, crefydd, cenedligrwydd, aelodaeth o grŵp cymdeithasol penodol neu am fod â barn wleidyddol benodol, y tu allan i wlad ei genedligrwydd ac sy’n methu â manteisio ar amddiffyniad y wlad honno, neu oherwydd y fath ofn, sy’n anfodlon manteisio ar amddiffyniad y wlad honno; neu sydd heb genedligrwydd a'i fod y tu allan i’w wlad breswyl arferol o ganlyniad i ddigwyddiadau o'r fath, yn methu â dychwelyd iddi neu, oherwydd ofn o’r fath, yn anfodlon dychwelyd iddi.”

Yn y Deyrnas Unedig, mae unigolyn yn dod yn ffoadur pan fydd y llywodraeth yn cytuno bod unigolyn sydd wedi gwneud cais am loches yn bodloni’r diffiniad yn y Confensiwn Ffoaduriaid ac yn ‘cydnabod’ bod yr unigolyn yn ffoadur ac yn rhoi dogfennaeth statws ffoadur iddo. Fel arfer mae ffoaduriaid yn y Deyrnas Unedig yn cael caniatâd i aros yma fel ffoadur am bum mlynedd. Wedyn, mae’n rhaid iddyn nhw wneud cais am gyfnod pellach, er nad yw eu statws fel ffoadur wedi'i gyfyngu i bum mlynedd.

Mae rhai gwirfoddolwyr yn pryderu am y stigma posibl ynghylch eu statws mewnfudo ac yn ofni cael eu labelu fel ‘y ceisiwr lloches’ neu ‘y ffoadur’. Mae eraill yn awyddus i'r mudiad maen nhw’n gwirfoddoli iddo wybod a deall eu statws mewnfudo oherwydd efallai y bydd angen cymorth ychwanegol arnynt, neu y bydd angen addasu ychydig ar eu polisïau.

Rydym yn argymell bod mudiadau sy'n cynnwys cwestiwn am statws mewnfudo ar eu ffurflenni recriwtio yn nodi mai cwestiwn dewisol ydyw.

Mae angen i fudiadau fod yn glir ynghylch pam a sut maen nhw'n casglu'r wybodaeth a beth fyddan nhw'n ei wneud gyda'r data hwn. Rydym hefyd yn awgrymu eich bod yn cadw statws mewnfudo unigolyn yn gyfrinachol, yn yr un modd ag y byddech yn cadw rhywioldeb gwirfoddolwr yn gyfrinachol, er enghraifft.

## Cyfarwyddyd y Swyddfa Gartref

Mae'r Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi canllawiau newydd yn ddiweddar ynghylch rhoi caniatâd i unigolion sy'n ceisio lloches weithio a gwirfoddoli.

Mae'n datgan:

- Gellr gwirfoddoli ar unrhyw gam o'r broses gwneud cais am loches ond ni ddylai gweithgarwch o'r fath ymyrryd â digwyddiadau a drefnwyd, fel cyfweliad lloches pwysig, digwyddiadau adrodd rheolaidd neu gyfweliad ail-ddogfennaeth.
- Ni fydd y digwyddiadau yma'n yn cael eu haildrefnu oherwydd digwyddiadau gwirfoddoli. Bydd angen i fudiadau sy'n cynnig cyfleoedd o'r fath ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd fel y gall gwirfoddolwyr fynychu cyfweliadau neu apwyntiadau ochr yn ochr â'u gweithgarwch gwirfoddoli.
- Rhaid i wirfoddoli hefyd beidio â thanseilio'r broses o gael gwared yn effeithiol ar y rhai nad oes angen eu hamddiffyn ac nad ydynt yn gymwys i aros yn y Deyrnas Unedig ar unrhyw sail arall.
- Gall ceiswyr lloches wirfoddoli tra bod eu cais yn cael ei ystyried, heb gael caniatâd i weithio.

Mae'n bolisi gan y Swyddfa Gartref i gefnogi ceiswyr lloches sy'n gwirfoddoli i elusennau neu'r sector cyhoeddus. Fodd bynnag, ni ddylai hyn fod yn gyfystyr â 'chyflogai' neu 'weithiwr', a chyfrifoldeb yr unigolyn a'r mudiad y mae'n gwirfoddoli iddo yw gwneud yn siŵr nad yw gweithgarwch o'r fath yn golygu ei fod yn gweithio ac yn torri eu hamodau.

Dylai'r mudiad hefyd gynnal yr holl wiriadau diogelwch perthnasol sydd eu hangen. Ni all y Swyddfa Gartref gadarnhau unrhyw fanylion personol a gaiff eu rhoi gan geiswyr lloches fel rhan o'r broses fewnfudo i'w defnyddio mewn unrhyw gyd-destun arall ac eithrio materion mewnfudo.

I grynhoi, y prif wahaniaeth yw na ddylai gwirfoddoli fod yn waith di-dâl, na chwaith ddisodli swydd. Yn benodol:

- Ni ddylai fod dim taliad am y gwaith, ac eithrio am gostau teithio a phrydau rhesymol
- Gwariant gwirioneddol a wnaed (nid lwfans ar gyfer yr un peth)
- Ni ddylai fod dim rhwymedigaeth gytundebol ar y gwirfoddolwr, ac
- Ni ddylai fod ag unrhyw hawl cytundebol i unrhyw waith neu fudd-daliadau
- Mae'r gwirfoddolwr yn helpu mudiad gwirfoddol neu elusennol cofrestredig, mudiad sy'n codi arian ar gyfer mudiad o'r fath, neu fudiad yn y sector cyhoeddus
- Ni ddylai gwirfoddolwyr ddisodli swyddi cyflogedig, hynny yw cyflawni rôl y byddai gweithiwr cyflogedig yn ei gwneud fel arfer

## Yn gysylltiedig â'r cyfarwyddyd

**Gwybodaeth**

Mae'r canllawiau yma'n gyson â'r diffiniad o wirfoddoli a ddefnyddir yn nogfen
Polisi gwirfoddoli Llywodraeth Cymru, (Awst 2015)

Mae gwirfoddoli'n weithgarwch:

- sy'n cael ei gyflawni'n rhydd, o ddewis
- sy'n cael ei gyflawni er budd i'r cyhoedd/y gymuned
- nad yw'n cael ei gyflawni am elw ariannol

Argymhellir bod pob ceisiwr lloches sy'n ymgymryd ag unrhyw weithgarwch gwirfoddoli yn hysbysu ei Weithiwr Achos yn y Swyddfa Gartref a'i gyfreithiwr ei fod wedi dechrau gwirfoddoli. Gall yr wybodaeth yma fod yn ddefnyddiol i'w gais am loches.

Yn yr un modd, yn achos ffoaduriaid a allai fod yn hawlio budd-daliadau lles, fel Lwfans Ceisio Gwaith, mae'n bwysig bod eu pwynt cyswllt yn y ganolfan waith yn ymwybodol o unrhyw wirfoddoli mae'r unigolyn yn ei wneud.

## Gwyliwch eich iaith – 'gwirfoddoli' nid 'gwaith gwirfoddol'

Mae'n hollbwysig bod cydlynwyr gwirfoddolwyr sy'n goruchwylio gwirfoddolwyr sy'n ceisio lloches yn ymwybodol o bwysigrwydd iaith. Dylech ddefnyddio'r term 'gwirfoddoli' ac nid 'gwaith gwirfoddol' bob amser.

I unigolion sydd efallai'n dysgu iaith newydd, gall fod yn haws cofio'r term 'gwaith gwirfoddol' yn hytrach na 'gwirfoddoli'. Fodd bynnag, gallai defnyddio'r term 'gwaith gwirfoddol' i ddisgrifio 'gwirfoddoli' roi cais unigolyn sy'n ceisio lloches neu gymorth lloches mewn perygl.

## Rheoli gwirfoddolwyr: cynnig cymorth priodol

Nid yw ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn grŵp unfath o unigolion. Mewn gwirionedd, un o'r ychydig nodweddion sy'n debyg rhwng y ddau grŵp yma o unigolion yw'r ffaith eu bod wedi wynebu erledigaeth, ac artaith o bosibl, yn eu mamwlad, gan eu gorfodi i ffoi.

O ganlyniad i'r profiadau yma, gallai unigolion sy'n ceisio lloches fod yn dioddef trawma. Materion eraill a allai ychwanegu at drawma maen nhw'n ei brofi yw ynysu, rhwystrau o ran iaith, eu teulu yn gwahanu ac ansicrwydd ynghylch canlyniad eu cais am loches.

Mae'n bwysig bod cydlynwyr gwirfoddolwyr yn ymwybodol o'r materion cymhleth sy'n effeithio ar bobl sy'n ceisio noddfa, ac yn nodi cymorth ychwanegol priodol pe bai angen hyn er mwyn i unigolyn allu gwirfoddoli.

Nid yw mudiad Abertawe Dinas Noddfa yn gofyn pam mae pobl wedi gorfod ffoi o'u mamwlad. Yn hytrach, maen nhw'n canolbwyntio ar y cyfnod 'ar ôl cyrraedd' y Deyrnas Unedig ac awydd unigolyn i wirfoddoli yn ei gymuned newydd. Mae'r dull yma'n cael ei gymeradwyo gan eraill.

Bydd rhai unigolion yn dewis datgelu gwybodaeth am eu profiadau yn y gorffennol a'r rhesymau pam y bu'n rhaid iddyn nhw ffoi o'u mamwlad. Gall hyn fod yn brofiad defnyddiol i unigolion, ac yn y sefyllfa yma, bydden ni'n awgrymu eich bod chi fel cydlynydd gwirfoddolwyr yn gwrando arnyn nhw ac yn rhoi cyfle iddyn nhw siarad.

Mae'n bwysig bod gan fudiadau fecanweithiau cymorth digonol (mewnol neu allanol) ar gyfer eu cydlynwyr gwirfoddolwyr a allai fod yn clywed am brofiadau trawmatig a phoenus pobl.

Er gwaetha'r materion cymhleth yma sy'n effeithio ar bobl sy'n ceisio noddfa, mae llawer o unigolion yn llwyddo i ddangos gwytnwch rhyfeddol unwaith y byddan nhw wedi gallu dianc o'r bygythiad oedd yn eu hwynebu. Mae'n arwydd cadarnhaol os yw unigolyn wedi cymryd y cam rhagweithiol o fynd at fudiad i wirfoddoli.

## Rolau

Cofiwch am bwysigrwydd bod ag amrywiaeth o rolau a allai fanteisio ar setiau sgiliau a chymhellion gwirfoddolwyr yn ogystal â bod yn ymwybodol o gadw at bolisïau diogelu a sefydliadol.

Fel sy'n wir gydag unrhyw gyfle gwirfoddoli, mae'n bwysig bod y rôl yn un ystyrlon ac nad yw'n gyfystyr â disodli swydd neu'n llafur di-dâl i bob pwrpas.

## Prosesau recriwtio

Gellir annog gwirfoddolwyr i lenwi eu **ffurflenni cais** eu hunain, yn enwedig os yw teithio i'r ganolfan yn anodd. Mae'n bwysig sicrhau bod y rheolwr gwirfoddolwyr neu aelod priodol arall o staff yn gallu cynnig cefnogaeth os oes angen.

Dylid gwneud hyn mewn ffordd nad yw'n dadrymuso'r gwirfoddolwr mewn unrhyw ffordd, ond sy'n caniatáu i'r gwirfoddolwr beidio â theimlo rheidrwydd i siarad amdano'i hun yn fwy nag y mae'n teimlo'n gyfforddus yn ei wneud, ac i beidio â phoeni am sillafu na safon iaith. Mae hefyd yn caniatáu i'r rheolwr gwirfoddolwyr gael rhagor o wybodaeth a dealltwriaeth ohono.

## Geirdaon

Gall geirdaon fod yn ffordd ddefnyddiol o wirio addasrwydd unigolyn, ond i bobl sy'n newydd i'r ardal gall fod yn anodd dod o hyd i rywun i ofyn am eirda ganddyn nhw.

A oes modd i'ch mudiad ddefnyddio gwahanol ffyrdd o asesu addasrwydd; cyfnod cysgodi hirach, rhaglen hyfforddi a asesir? Gofynnwch i'ch hunan "a oes wir angen i wirfoddolwyr ddarparu geirda ar gyfer y rôl yma?"

A yw eich hyfforddiant cynefino mewn man hygyrch i rywun sy'n newydd i'r ardal, ac sydd heb arian i dalu am fws ar y diwrnod yna o bosibl? A yw hyfforddiant cynefino gwirfoddolwyr yn cael ei ddarparu mewn ffordd sy'n ddealladwy i bobl nad Cymraeg neu Saesneg yw eu prif iaith?

A yw eich staff wedi cael hyfforddiant digonol ac a oes ganddyn nhw ddealltwriaeth ddigonol o'r materion sy'n ymwneud â cheiswyr lloches a ffoaduriaid i sicrhau eich bod yn gallu cynnig croeso?

## Goruchwyliaeth

- Cofiwch ganiatáu amser yn ystod eich sesiynau goruchwylio i holi sut mae pob un o'ch gwirfoddolwyr. Bydd hyn yn caniatáu i chi gynnig cymorth ychwanegol os oes angen.
- Efallai y byddai’n syniad i chi fod â map/rhestr o wasanaethau cymorth i'w rhannu. Mae’n debygol y bydd ystod o wasanaethau lleol gerllaw mewn ‘ardal wasgaru’ y gallwch gyfeirio unigolion atynt.

## Meithrin sgiliau a chael cydnabyddiaeth

Dylech fod yn glir ynghylch am ba mor hir y dylai rhywun wirfoddoli (misoedd, oriau) i allu derbyn geirda neu lythyr cefnogi (gallai hyn gael ei gynnwys yn y polisi gwirfoddoli). Mae enghraifft o lythyr cefnogi sy’n cael ei gynnig gan Abertawe Dinas Noddfa wedi’i gynnwys fel Atodiad.

**Gwybodaeth**

Mae enghraifft o lythyr cefnogi sy’n cael ei gynnig gan Abertawe Dinas Noddfa wedi’i gynnwys yn Atodiad 1:
Atodiad 1: Llythyr Cymorth

## Ad-dalu treuliau

Y sefyllfa ar hyn o bryd yw bod cymorth o dan Adran 95 yn cyfeirio at geiswyr lloches y mae eu ceisiadau’n dal i gael eu prosesu, sydd naill ai’n amddifad neu ar fin bod yn amddifad, a’u dibynyddion.

Y sefyllfa ar hyn o bryd yw bod cymorth o dan Adran 95 yn cyfeirio at geiswyr lloches y mae eu ceisiadau'n dal i gael eu prosesu, sydd naill ai'n amddifad neu ar fin bod yn amddifad, a'u dibynyddion.

Gall Ceiswyr Lloches gael cymorth ar ffurf tai a/neu gostau byw sylfaenol tra'u bod yn y Deyrnas Unedig drwy gynllun sy'n cael ei weinyddu gan y Swyddfa Gartref.

Mae'r cynllun cymorth yma'n darparu dau becyn cymorth – cymorth i'r rheini y mae eu ceisiadau am loches yn dal i gael eu prosesu (Adran 95) a chymorth i geiswyr lloches a gafodd eu gwrthod (Adran 4).

Mae cymorth o dan Adran 95 wedi'i anelu at geiswyr lloches sydd â cheisiadau yn dal i gael eu prosesu, sydd naill ai'n amddifad neu sydd ar fin bod yn amddifad, a'u dibynyddion.

Gall cymorth o dan Adran 95 fod ar ffurf cynhaliaeth yn unig (h.y. cymorth ariannol yn unig) neu ar ffurf llety a chynhaliaeth os nad oes ganddyn nhw rywle i aros tra'u bod yn aros am ganlyniad eu cais am loches.

Mae lefel y cymorth ariannol a ddarperir yn gyfradd sefydlog sy'n sylweddol is na lefelau cymhorthdal incwm. Ar hyn o bryd y cymorth yw £39.63 yr wythnos y pen (mae oedolion a phlant yn derbyn yr un faint).

Bydd lwfans wythnosol o £39.63 ceiswyr lloches sydd ar gymorth Adran 4 yn cael ei lwytho ar gerdyn Debyd (cerdyn ASPEN). Ni fydd modd iddyn nhw dynnu arian parod gyda'r cerdyn.

Mae hyn yn darparu tai i geiswyr lloches a £39.63 yr wythnos i bob unigolyn. Mae oedolion a phlant yn derbyn yr un faint. Caiff gwirfoddolwyr eu hannog i hawlio'u costau teithio a lwfans cinio os ydyn nhw'n gwirfoddoli am ddiwrnod llawn.

Dylid ei gwneud mor hawdd â phosibl i wirfoddolwyr gael mynediad at y taliadau yna, a dylai eich tîm cyllid drin y taliadau fel blaenoriaeth. Dylid talu costau teithio ymlaen llaw pan fo angen hefyd. Y mudiad ddylai hefyd dalu costau gwibdeithiau i wirfoddolwyr, gan gynnwys ffioedd mynediad a chostau prydau bwyd.

Dylai llyfrau a chofnodion cyfrifyddu elusen gofrestredig gael eu dylunio i fodloni'r gofynion adrodd sydd wedi'u gosod gan y Comisiwn Elusennau yn ogystal ag unrhyw ofynion deddfwriaethol ariannol eraill a bennir gan y cyrff llywodraethu priodol.

Yr arfer 'safon aur' yw na fydd mudiad yn ad-dalu nac yn talu am unrhyw ymrwymiad na thraul oni bai bod anfoneb/derbynneb wreiddiol yn cyd-fynd â'r taliad. Mae hyn yn sicrhau'r tryloywder mwyaf a thrywydd archwilio clir.

O bryd i'w gilydd, efallai na fydd gwirfoddolwr yn gallu cyflwyno derbynneb wreiddiol (e.e. tocyn bws diwrnod cyfan) i'w had-dalu ar ddiwrnod y digwyddiad gwirfoddoli gan fod angen iddo ddal gafael ar y tocyn er mwyn gallu teithio'n ôl gartref.

Mewn amgylchiadau o'r fath, mae yna nifer o opsiynau:

a. Os yw'r gwirfoddolwr yn mynychu sesiynau gwirfoddoli rheolaidd (e.e. unwaith yr wythnos), yna gallant gael ad-daliad (ar sail dreigl) bob wythnos fel ôl-daliad. Bydd y system yma'n golygu y bydd derbynebau gwreiddiol bob amser ar gael a bydd yn arwain at optimeiddio'r broses o baru derbynebau ac ad-dalu.

   Fodd bynnag bydd ad-daliadau am ôl-ddyledion yn rhoi straen afresymol ar sefyllfa ariannol y rhan fwyaf o geiswyr lloches – gweler isod.

b. Os nad oes gan y gwirfoddolwr ddim arian dros ben a'i fod yn gwybod faint fydd pris y gwariant (e.e. tocyn bws diwrnod cyfan), yna gellir rhoi blaenswm o arian parod iddo ar y ddealltwriaeth y bydd y tocyn/derbynneb wreiddiol yn cael ei anfon ymlaen i'r elusen yn ddiweddarach.

   Fodd bynnag, yn ymarferol yr aelod o staff fydd yn gyfrifol am fynd ar ôl gwirfoddolwyr am docynnau a oedd eisoes wedi cael eu had-dalu. Gallai hyn fod yn feichus o ran amser a gall arwain at beidio cynnwys anfonebau/derbynebau yng nghofnodion ariannol yr Elusen os na chaiff y copïau gwreiddiol eu cyflwyno fel yr addawyd.

c. Mae'n bosibl y bydd rhai mudiadau'n derbyn ffotograffau o'r tocyn fel prawf bod y gwariant wedi'i wneud. Er bod hyn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd bod y gwirfoddolwr wedi mynd i draul, nid yw'n gwarantu fodd bynnag nad yw'r tocyn hefyd yn cael ei hawlio o ffynhonnell arall, neu'n cael ei hawlio ddwywaith gan eich mudiad.

Er mwyn osgoi dyblygu ad-dalu treuliau, dylid cadw cofnodion cywir. Bydd bod â ffeil o dderbynebau am dreuliau arian parod gan wirfoddolwyr a gafodd eu had-dalu yn gallu bod yn ffordd i'r mudiad osgoi talu ddwywaith. Awgrymir eich bod yn trafod y mater gyda'ch swyddog cyllid i ddod o hyd i drefn ymarferol sydd hefyd yn cydymffurfio â gofynion archwilio eich mudiad.

Mae ad-dalu treuliau gwirfoddolwyr yn cael ei gydnabod yn eang fel arfer da. Fodd bynnag, mae ad-daliadau yn hanfodol i bobl sy'n ceisio noddfa.

**Gwybodaeth**

Mae templed o ffurflen trafodion arian parod gan Abertawe Dinas Noddfa i'w gweld yn Atodiad 2.
Atodiad 2: Ffurflen Trafodion Arian Parod

## Beth os yw fy mudiad yn ad-dalu treuliau yn wythnosol neu'n fisol?

Os yw eich mudiad fel arfer yn ad-dalu treuliau yn wythnosol neu'n fisol, mae'n bosibl y bydd hyn yn rhwystr ychwanegol i unigolion sy'n ceisio lloches neu bobl sydd ar incwm isel.

Byddem yn argymell bod y mudiad yn gweithredu system arian mân er mwyn ad-dalu unigolion a allai fod ar incwm isel ac a fyddai'n cael trafferthion ariannol pe byddai'n rhaid iddyn nhw aros tan ddiwedd yr wythnos, neu'r mis cyn cael ad-daliad.

**'Rydyn ni'n ad-dalu treuliau gwirfoddolwyr sy'n geiswyr lloches gydag arian mân ac rydyn ni'n darparu cefnogaeth emosiynol iddyn nhw os oes ei angen. Mae ein holl staff a gwirfoddolwyr yn gefnogol iawn i geiswyr lloches. Rydyn ni'n darparu cwrs hyfforddi am dridiau i bob gwirfoddolwr.'**

Toula Karageorgis, Cydlynydd Gwirfoddolwyr, Y Groes Goch Brydeinig.

## Beth os yw fy mudiad yn ad-dalu treuliau drwy drosglwyddiad banc neu siec?

Os yw eich mudiad fel arfer yn ad-dalu treuliau drwy drosglwyddiad banc neu siec, mae'n bosibl y bydd hyn yn rhwystr ychwanegol i unigolion sy'n ceisio lloches.

Awgrymir bod mudiad yn gweithredu system arian mân er mwyn ad-dalu unigolion a allai fod ar incwm isel ac a fyddai'n cael trafferthion ariannol pe byddai'n rhaid iddyn nhw aros tan ddiwedd yr wythnos, neu'r mis.

## Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Ar gyfer rhai cyfleoedd gwirfoddoli, bydd gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn angenrheidiol ac nid oes modd ei osgoi.

Gall y cyfleoedd yma fod yn anoddach I unigolion sy'n ceisio lloches gymryd rhan ynddynt.

Mae'n debygol y bydd cynnal gwiriad gan y Gwansanaeth Dategelu a Gwahardd ar gyfer unigolyn sy'n ceisio lloches yn cymryd mwy o amser nag arfer.

Mae'n bwysig bod hyn yn cael ei egluro i ddarpar wirfoddolwyr ac mae'n bwysig bod eich mudiad yn ymwybodol o hynny.

**'Rwy'n cefnogi ceiswyr lloches i wirfoddoli drwy eu cynnwys yn ein tîm gweinyddol sy'n golygu nad oes angen gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd arnyn nhw. Rydw i wedi gwneud gwiriad llwybr 4 y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gyda cheisiwr lloches ond fe gymerodd tua wyth mis iddo ddod yn ôl, ac erbyn hynny roedden nhw wedi symud ymlaen. Byddwn i'n gwneud hynny eto pe bai ganddon ni gyfleoedd gwirfoddoli gyda byw'n annibynnol, cyn belled â bod y gwirfoddolwr yn hapus i fynd i orsaf yr heddlu, a byddwn yn ei gefnog drwy'r broses gan fod hyn yn brofiad trawmatig iawn.'**

Toula Karageorgis, Cydlynydd Gwirfoddolwyr, Y Groes Goch Brydeinig.

Er mwyn cynnal gwiriad o'r fath bydd angen i'r Swyddfa weld dogfennau adnabod amrywiol, dogfennau na fyddai gan lawer o geiswyr lloches. Mae'n bosibl dewis gwiriad 'Llwybr 4', sy'n cynnwys gofyn i'r gwirfoddolwr rannu olion bysedd er mwyn bodloni'r meini prawf.

Fodd bynnag, i rai pobl sy'n ceisio lloches, gall y broses o roi olion bysedd fod yn brofiad trawmatig. Os gwneir hyn, dylech fod yn barod i gynnig cymorth ychwanegol os bydd yr unigolyn yn gofyn amdano, gan fynd gyda'r unigolyn os oes angen.

Mae tueddiad I gynnig cyfleoedd gwirfoddoli lle nad oes angen gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn unig i geiswyr lloches ac unigolion eraill a allai fod heb y ddogfennaeth berthnasol.

Opsiwn arall fyddai annog rhagor o unigolion i fanteisio ar y mathau yma o gyfleoedd gwirfoddoli, gyda chymorth ychwanegol gan gydlynwyr gwirfoddolwyr.

Mae rhai mudiadau sy'n cefnogi gwirfoddolwyr sy'n ceisio noddfa yn awgrymu, petai'r opsiwn 'Llwybr 4' yn cael ei ddefnyddio'n amlach, y gallai ddod yn arfer prif ffrwd y byddai staff yn fwy gwybodus a hyderus yn ei ddefnyddio a'i gefnogi.

**Nodyn Pwysig**

Os yw ceisiwr lloches yn dod o un o'r gwledydd sydd wedi'u rhestru ar wefan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd efallai y byddai modd cael 'tystysgrif ymddygiad da' gan ei wlad enedigol, ond bydd yn rhaid i'r unigolyn wneud cais amdani, ac mae'n debygol y bydd tâl, ac efallai y bydd angen cyfieithu'r ddogfen.
Llywodraeth y Deyrnas Unedig: Gwiriadau cofnodion troseddol ar gyfer ymgeiswyr tramor

## Crynodeb

Mae llawer o geiswyr lloches yn awyddus i wirfoddoli er mwyn dysgu rhagor am eu cymuned newydd, i ymarfer ieithoedd ac i ddefnyddio'u sgiliau neu i ddatblygu sgiliau newydd. gwirfoddoli yn cynnig cyfle i gwrdd â phobl newydd ac i lenwi eich amser mewn modd ystyrlon tra nad oes modd i chi weithio.

> **'Ro'n i'n gweithio am dâl am dros ugain mlynedd nôl gartref. Ond mae fy nghyfleoedd gwirfoddoli yn golygu mwy i fi nag y gwnaeth fy ngwaith cyflogedig erioed. Mae gwirfoddoli'n rhoi heddwch i fi ac yn fy helpu i anghofio am fy mhroblemau fy hunan.'**
>
> Toula Karageorgis, Cydlynydd Gwirfoddoli,
> Y Groes Goch Brydeinig.

Mae gwirfoddoli yn gallu rhoi geirda cyfoes yn y Deyrnas Unedig i ffoaduriaid hefyd, a all fod yn ddefnyddiol wrth geisio cael gwaith mewn hinsawdd gystadleuol iawn.

Mae'r awgrymiadau sydd wedi'u cynnwys yn y daflen wybodaeth yma'n berthnasol i reoli gwirfoddolwyr yn gyffredinol, waeth beth fo'u statws mewnfudo.

## Gwybodaeth bellach

**Gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches (Saesneg yn unig)**
**Canolfan Wirfoddoli Sheffield**
http://www.sheffieldvolunteercentre.org.uk/uploads/files/GP_DBS_Guidelines_for_Refugees_and_Asylum_seekers.pdf

---

**Abertawe, Dinas Noddfa (Saesneg yn unig)**
**Dinas Noddfa**
https://swansea.cityofsanctuary.org/

---

**Displaced People in Action (Saesneg yn unig)**
**DIPA**
https://www.dpia.org.uk/

---

**Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig a Ieuenctid Cymru (Saesneg yn unig)**
**EYST**
https://eyst.org.uk/

---

**Cyngor Ffoaduriaid Cymru**
**Cyngor Ffoaduriaid Cymru**
https://wrc.wales/cy/hafan/

---

**Eich Canolfan Wirfoddoli Leol**
**Cefnogi Trydydd Sector Cymru**
https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/

Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Third Sector Support Wales

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â
**https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/**

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.

# Atodiad un

Cyfeiriad

Dyddiad

I'r unigolion perthnasol,

Rydyn ni'n ysgrifennu i gadarnhau bod Rhowch enw wedi gwirfoddoli gyda Mudiad ers 00/00/0000.

Enghraifft: Fel rôl y gwirfoddolwr fe wnaeth ef/hi fynychu hyfforddiant cynefino, sesiynau cefnogi rheolaidd ac roedd yn gaffaeliad ased i'n prosiect. Fe ddefnyddiodd ei sgiliau cyfathrebu presennol i addysgu pobl am realiti bywyd fel rhywun sy'n ceisio noddfa yn y Deyrnas Unedig.

Mae wedi mynychu pob sesiwn hyfforddi sydd ar gael iddo/iddi ac wedi defnyddio'r adborth a ddarparwyd i wella ei sgiliau hyfforddi a chyflwyno. Mae bob amser yn barod i gefnogi aelodau o'r gynulleidfa i gael y gorau o'r hyfforddiant y mae'n ei ddarparu.

Mae croeso i chi gysylltu â fi os hoffech ragor o wybodaeth.

Diolch yn fawr,

Aelod o staff

# Atodiad dau

**Cadarnhad o ad-daliad**

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi derbyn (nodwch y swm): £ 00.00

Mewn arian parod gan (nodwch enw'r aelod o staff) ar: 00/00/0000

Ar gyfer (nodwch fanylion y gweithgarwch gwirfoddol):

Enw'r gwirfoddolwr a ad-dalwyd:

Cyfeiriad:

Llofnod yr unigolyn a ad-dalwyd

Lofnod digidol

Gwelwyd y tocyn gwreiddiol:

Llun o'r tocyn ynghlwm: